

Y Nadolig

Darlleniad 1: Ioan 1,14: 3, 16-21

Darlleniad 2: Philipiaid 2: 5-11

Diolchwn i ti, O! Dduw ein Tad, dy fod ti'n Dduw sy'n caru, yn Dduw sydd o'n plaid ni. Ac wrth i ni ddathlu Gŵyl y Nadolig eto eleni, cynorthwya ni i sylweddoli o'r newydd mai'r hyn a welwn wrth edrych i gyfeiriad y baban bychan yn y preseb ym Methlehem yw rhyfeddod dy gariad tuag atom, a hynny yn wyneb ein hannheilyngdod mawr ni.

Fe'n creiaist yn berffaith ac yn dda a'n gosod mewn byd perffaith a da, ond fe lwyddon ni i ddifetha'r cyfan a chreu pellter rhyngom, a'r pellter yn angau i ni. Ond yn dy gariad daethost drwy'r pellter i'n plith ym mherson yr Arglwydd Iesu, a thrwy'i waith mae'r pellter yn cau.

Diolch i ti, O! Dduw, am dy gariad rhyfeddol sy'n pontio'r gagendor rhyngom ac yn ein dwyn yn ôl i berthynas lawn â thi, y pell bellach wedi'i ddwyn yn agos.

Bendithia'n dathliadau. Mae hon yn wyl i'w dathlu, mae'r dyddiau yn ddyddiau o lawenydd a diolchgarwch, ond cynorthwya ni i gofio, drwy'r cyfan, y rheswm dros y dathlu, a thrwy hynny gwna'n gweithgarwch yn deilwng. Yn y dwyster a geir mewn ysbaid o weddi neu fyfyrdod, yn y chwerthin a'r hwyl a geir wrth wrando plant yn mynd trwy'u gwaith neu mewn parti Ysgol Sul, yn y diddanwch a'r mwynhad a geir wrth groesawu ffrindiau neu ymweld â'r teulu, neu yn yr hapusrwydd a welir yn llygaid plentyn wrth agor rhoddion fore'r Nadolig, llefara wrthym am brydferthwch dy gariad sydd, trwy dy Fab Iesu Grist, yn cynnig tragwyddoldeb i ni.

Ac os yw'n hamgylchiadau'n ein rhwystro rhag medru gwneud yr hyn yr hoffem ei wneud, gofynnwn ar i ti aros gyda ni yn dy gariad

ac yn dy ddiddanwch, gan ein hatgoffa'n gyson bod llawenydd a gobaith y Nadolig yn aros hyd yn oed pan rwystrir y gweithgarwch.

Cynorthwya ni hefyd i osgoi gwneud yr ŵyl yn un hunanol a thrachwantus, a bod yn barod i roi o'n hamser a'n hadnoddau i fod o gymorth a diddanwch i bwy bynnag sydd mewn trafferth, unigrwydd neu brinder. Hanfod y Nadolig yw gwyrth yr ymgnawdoliad, ti dy hun yn dy roi dy hun i ni. Gwna ni'n barod felly i ymateb i anghenion eraill, a thrwy'n gweithgarwch i lefaru am ryfeddod dy gariad di, y cariad a barodd i ti wacáu dy hun er ein mwyn - y rhoi mwyaf a welwyd erioed.

O! Dduw ein Tad, bendithia'r Nadolig hwn eto. Maddau yr holl feiau a weli ynom, a thrwy dy Ysbryd Glan defnyddia ni i gyhoeddi'r newydd da am dy ddyfodiad i'n plith. Yn enw Iesu Grist ein Harglwydd, Amen.

Trefor Jones Morris